Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

# Cydweithredfa Ranbarthol Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd

Mawrth 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.
OGL © Hawlfraint y Goron 2026 WG54216 ISBN 978-1-83745-194-4

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o Gydweithredfa Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (FCC) rhwng 1 a 5 Rhagfyr 2025.

1.2 Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, gan gynnwys swyddogaethau mewn perthynas â mabwysiadu, ar ran Gweinidogion Cymru yn unol ag Adran 149B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1.3 Mae Cyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) 2015 yn gosod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd. Prif ddiben y cyfarwyddydau hyn yw sicrhau bod cyd-drefniadau effeithiol ar waith rhwng awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau gwasanaethau mabwysiadu cyson ac effeithiol ledled Cymru. Mae Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol yn rhan o strwythur tair haen i ddarparu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

1.4 Mae Cydweithredfa Ranbarthol Mabwysiadu FCC yn cynnwys awdurdodau lleol Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Awdurdod lleol Bro Morgannwg yw'r prif awdurdod lleol ar gyfer y rhanbarth hwn.

1.5 Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar sut mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo llesiant a diogelwch plant drwy gynnig sefydlogrwydd gyda theuluoedd sy'n mabwysiadu, a all ddiwallu eu hanghenion yn ddiogel a gwella'r tebygolrwydd y byddant yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Gwnaethom werthuso'r trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu sy'n cefnogi'r broses o ddarparu'r gwasanaeth, a pha mor effeithiol yw'r trefniadau hynny wrth sicrhau canlyniadau o ansawdd i blant.

1.6 Gwnaethom ystyried y cwestiynau allweddol canlynol o dan benawdau perthnasol:

**Llesiant**

- A gaiff anghenion llesiant y plant eu diogelu'n briodol wrth gael sefydlogrwydd?
- A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn hygyrch, yn ddiogel ac yn ymateb i anghenion y bobl?

**Gofal a Chymorth**

- A yw plant, y teulu biolegol a'r teulu sy'n mabwysiadu yn cyflawni canlyniadau da drwy'r cymorth a ddarperir, sy'n hybu eu llesiant cyffredinol?

**Arweinyddiaeth a Llywodraethu**

- A yw'r trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu yn sicrhau bod pobl yn cael gwasanaethau o ansawdd uchel?

1.7 Rhestr Terminoleg a Diffinio Meintiau Gweler Atodiad 2 a 3.

## 2. Crynodeb o ganfyddiadau'r arolygiad

2.1 Mae FCC yn darparu gwasanaethau mabwysiadu wedi'u hategu gan strwythur llywodraethu clir ac ymrwymiad cadarn i weithio mewn partneriaeth. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio polisïau a chanllawiau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS), ac mae ganddo Ddatganiad o Ddiben sy'n nodi nodau, amcanion a safonau. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i sicrhau bod pob aelod o staff a phob aelod o'r panel yn gyfarwydd â'i gynnwys a'i berthnasedd yn dilyn diwygiadau.

2.2 Mae FCC yn dangos enghreifftiau o arfer da wrth hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac mae'n darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg fel mater o drefn. Fodd bynnag, nodwyd rhai bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg mewn rhai ymatebion gan bobl a gasglwyd fel rhan o weithgarwch arolygu AGC.

2.3 Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn brydlon i ymholiadau ynghylch mabwysiadu ac yn darparu gwybodaeth hygyrch.

2.4 Mae prosesau eirioli yn rhan annatod o'r ymarfer, ac mae'r gwasanaeth yn gweithredu mewn ffordd ragweithiol i helpu plant, pobl ifanc, a rhieni biolegol i fynegi eu safbwyntiau.

2.5 Mae diogelu yn flaenoriaeth a rennir. Mae trefniadau cadarn ar waith ar gyfer rheoli risgiau ac mae ymarferwyr yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau y caiff ymweliadau dirybudd â darpar fabwysiadwyr eu cofnodi a'u monitro'n gyson.

2.6 Mae'r prosesau asesu a chymeradwyo ar gyfer mabwysiadwyr yn gynhwysfawr. Mae'r hyfforddiant a ddarperir yn cael ei ganmol, gan baratoi ymgeiswyr at realiti rhieni sy'n mabwysiadu a hybu dealltwriaeth o effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

2.7 Caiff y rhanbarth ei gydnabod am ei ymrwymiad i Sefydlogrwydd Cynnar Cymru[1], gydag ymarferwyr ac aelodau'r panel yn cael hyfforddiant Sefydlogrwydd Cynnar Cymru ac adborth cadarnhaol gan staff a mabwysiadwyr am y broses.

2.8 Mae'r broses o ddod o hyd i deuluoedd a'r broses baru yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn amserol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio i sicrhau lleoliadau sefydlog, er bod heriau o hyd wrth ddod o hyd i deuluoedd i blant ag anghenion mwy cymhleth.

2.9 Mae gwaith taith bywyd yn rhan annatod o'r prosesau cynllunio ac yn destun prosesau sicrhau ansawdd. Caiff pob llyfr taith bywyd ei ddarparu o fewn terfynau amser priodol, ond mae'r gwasanaeth wedi nodi bod oedi wrth ddarparu llythyrau yn ddiweddarach mewn bywyd.

2.10 Mae FCC yn ymrwymedig i drefniadau cyswllt modern a hyblyg sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan ddefnyddio pecyn cymorth y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a rolau arbenigol i ymgysylltu â theuluoedd biolegol. Fodd bynnag, mae'r trefniadau cyswllt uniongyrchol yn gyfyngedig o hyd, ac mae ymarferwyr yn pryderu na fydd modd bodloni'r galw cynyddol heb gynnydd mewn adnoddau.

2.11 Mae cynlluniau cymorth mabwysiadu wedi'u teilwra ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ond gall pwysau o ran adnoddau ac amrywiadau rhanbarthol effeithio ar y gallu i gael gafael ar gymorth therapiwtig arbenigol.

2.12 Mae gwasanaethau cyfryngol ar gael ac yn cael eu gwerthfawrogi, er bod rhai pobl yn wynebu oedi wrth gael gafael ar gofnodion ac y byddai gwell cyfathrebu o fudd iddynt yn ystod cyfnodau o aros.

2.13 Mae'r trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth yn gadarn, gyda rolau a chyfrifoldebau clir ym mhob rhan o'r grŵp gweithredol, y bwrdd rheoli, a'r cyd-bwyllgor. Mae'r broses o greu cyd-bwyllgor i gefnogi Cydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol yn unigryw yng Nghymru ac mae cyfranogiad gweithredol aelodau etholedig yn elfen fuddiol. Caiff y cytundeb partneriaeth ei adolygu'n rheolaidd, gan gefnogi tryloywder ac atebolrwydd. Mae systemau sicrhau ansawdd a pherfformiad ar waith, ac mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i welliant parhaus.

2.14 Mae FCC yn dangos ethos cryf o gynwysoldeb, partneriaeth, ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae aelodau'r gweithlu yn sefydlog ac yn brofiadol, mae cyfleoedd hyfforddiant ar gael iddynt ac maent yn cael eu cynnwys wrth

[1] Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru

ddatblygu'r gwasanaeth, er y dylid adolygu'r cyfleoedd i gael hyfforddiant arbenigol.

## 3. Canfyddiadau

### Llesiant

3.1 Mae FCC yn cynnal Datganiad o Ddiben sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn ac sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r Datganiad o Ddiben yn nodi nodau, amcanion a safonau'r gwasanaeth, gan ddarparu fframwaith ymarfer clir a chefnogi tryloywder ac atebolrwydd. Er bod y rheolwyr a rhai aelodau o'r staff yn dangos dealltwriaeth dda o'r Datganiad o Ddiben a'u rôl wrth helpu i ddarparu'r gwasanaeth, nid yw pob ymarferydd a phob aelod o'r panel yn gyfarwydd â'r fersiwn ddiweddaraf na'i berthnasedd i'w gwaith. **Rhaid i'r panel sicrhau y caiff y Datganiad o Ddiben ei rannu a'i drafod yn reolaidd a'i roi ar waith ym mhob agwedd ar y broses o ddarparu'r gwasanaeth, fel bod pob aelod o'r staff a phob aelod o'r panel yn deall ei berthnasedd a sut i'w ddefnyddio.**

3.2 Mae'r Datganiad o Ddiben yn cyfeirio at gefnogi anghenion diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac yn amlinellu'r ymrwymiad i'r Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol. Fodd bynnag, gellid atgyfnerthu hyn drwy gynnwys manylion am sut y bydd y gwasanaeth yn diwallu anghenion iaith ac anghenion cyfathrebu unigolion ym mhob rhan o'r gwasanaeth, gan gynnwys ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. **Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y Datganiad o Ddiben yn nodi'n glir sut y caiff anghenion iaith ac anghenion cyfathrebu, gan gynnwys darparu gwasanaethau yn Gymraeg, eu diwallu'n ymarferol.**

3.3 Mae FCC yn ystyried polisïau a chanllawiau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ym mhob rhan o'i gwaith. Mae'r ymarferwyr yn adolygu'r fframweithiau hyn yn rheolaidd i sicrhau bod yr ymarfer yn gyson. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn nodi bod gwybodaeth am fabwysiadu yn glir a'i bod yn hawdd dod o hyd iddi. Mae mabwysiadwyr a theuluoedd biolegol yn gwerthfawrogi deunyddiau ysgrifenedig a'r wefan ddwyieithog, sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus o'r cychwyn cyntaf.

3.4 Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i'w gweld fel rhan o arferion y gwasanaeth, gan gefnogi mabwysiadwyr sengl a mabwysiadwyr o'r un rhyw a rhoi sylw rhagweithiol i leoliadau sy'n ystyried ffactorau diwylliannol. Mae'r

ymarferwyr yn dangos sensitifrwydd tuag at hunaniaeth a threftadaeth. **Mae hyn yn arfer da.**

3.5 Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn brydlon i ymholiadau cychwynnol, ac mae'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei ddarparu fel mater o drefn. Mae cymorth cyfieithu ar gael pan fo angen, ac mae rhai o'r ymarferwyr yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae rhai pobl yn nodi bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg. **Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n gyson â safonau'r Gymraeg yn unol â fframwaith 'Mwy na Geiriau'.**

3.6 Mae mabwysiadwyr yn cael eu cynnwys mewn ffordd weithredol ar amrywiol gamau o'u taith at fabwysiadu ac yn cymryd rhan mewn sesiynau cyflwyniadol, hyfforddiant, a chyfarfodydd rheolaidd â gweithwyr cymdeithasol. Mae systemau ar waith i gasglu adborth rheolaidd gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a chaiff yr adborth hwnnw ei goladu a'i ddadansoddi i lywio datblygiadau i'r gwasanaeth. Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr i'r arolwg yn teimlo er bod eu hadborth yn cael ei gasglu'n rheolaidd, nad oedd ei effaith ar ddatblygiadau i'r gwasanaeth mor amlwg. **Dylai Cydweithredfa Ranbarthol Mabwysiadu FCC ystyried y ffordd orau o roi gwybod i bobl sut mae'r adborth a'r gwersi i'w dysgu sy'n deillio o ganmoliaeth a chwynion yn arwain at wella'r gwasanaeth.**

3.7 Mae nifer y cwynion y mae FCC yn eu cael yn isel. Lle na chaiff cwynion eu cadarnhau, mae'r cofnodion yn dangos bod y gwasanaeth yn darparu esboniadau clir ac yn cymryd camau priodol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o'r bobl a ymatebodd i'r arolygon yn teimlo nad oes eglurder ynghylch y prosesau cwyno. **Dylai'r gwasanaeth fwrw ati â chynlluniau i ddarparu dolen glir a hygyrch i'w broses gwyno ar y wefan.**

3.8 Mae nifer y sylwadau canmoliaethus a geir gan bobl a gweithwyr proffesiynol, a chynnwys y sylwadau hynny, yn tynnu sylw at effaith gadarnhaol ymarferwyr, sy'n aml yn cael eu cydnabod am eu sgiliau eirioli, eu hempathi a'u hymrwymiad i gyflawni'r canlyniadau gorau. Mae pobl yn aml yn nodi eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt, eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi, a bod y staff yn meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth ac yn cyfathrebu'n effeithiol, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd cymhleth. **Mae hyn yn arfer da.**

3.9 Mae prosesau eirioli yn rhan annatod o'r ymarfer. Mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant, y bobl ifanc a'r rhieni biolegol i fynegi eu safbwyntiau ac i gymryd rhan wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau. Caiff pobl eu cynnwys yn y broses o asesu a gwella'r gwasanaeth drwy grwpiau ieuenctid, fforymau cymorth a sianeli adborth.

3.10 Mae'r rhan fwyaf o fabwysiadwyr yn nodi dealltwriaeth glir o'r amrywiaeth lawn o gymorth ôl-fabwysiadu a sut i gael gafael arno, ond mae rhai ohonynt yn nodi bylchau yn eu dealltwriaeth. **Dylai'r gwasanaeth fwrw ati â chynlluniau i atgyfnerthu'r wybodaeth ysgrifenedig am wasanaethau cymorth mabwysiadu.**

3.11 Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo diwylliant o garedigrwydd, parch a chynwysoldeb. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn nodi eu bod yn cael eu trin â thosturi a dealltwriaeth, a cheir ethos a rennir o barch at hawliau dynol. Fodd bynnag, mae rhai teuluoedd biolegol a ymatebodd i'r arolygon yn nodi nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth am eu hawliau na'r broses fabwysiadu, gan dynnu sylw at yr angen i wella prosesau cyfathrebu. **Mae'r gwasanaeth wedi cydnabod bod hyn yn faes i'w ddatblygu a dylai fwrw ati â chynlluniau i wella'r prosesau ar gyfer cyfathrebu â theuluoedd biolegol am eu hawliau.**

3.12 Mae'r gwasanaeth yn dangos ymrwymiad clir i gynrychioli llais y plentyn wrth asesu a chynllunio. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu, gan gynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol, arsylwi, a mewnbwn gan ofalwyr maeth, i sicrhau y caiff dymuniadau a theimladau plant eu hadlewyrchu mewn dogfennau allweddol.

3.13 Mae diogelu yn flaenoriaeth ranbarthol. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o risgiau ac mae asesiadau yn sicrhau gofal diogel a phriodol. Mae'r ymarferwyr yn cael sesiynau goruchwylio a hyfforddiant diogelu rheolaidd, i'w helpu i ganolbwyntio ar lesiant a diogelwch plant. Caiff cynlluniau rheoli risgiau eu rhoi ar waith pan fo angen, ac mae gofalwyr maeth a mabwysiadwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Caiff pryderon eu huwchgyfeirio mewn modd amserol, mae prosesau cydgysylltu amlasiantaethol ar waith ac mae'r rheolwyr yn goruchwylio'r sefyllfa. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r systemau yn sicrhau y caiff ymweliadau dirybudd â darpar fabwysiadwyr ar ôl i blentyn gael ei leoli eu cofnodi a'u monitro'n gyson. **Rhaid i FCC sefydlu trefniadau monitro addas ar gyfer ei ymweliadau dirybudd â darpar fabwysiadwyr yn unol â chanllawiau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, Diogelu Plant sydd wedi'u Lleoli gyda Darpar Rieni Mabwysiadol.**

3.14 Mae'r asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr yn gadarn ac yn gynhwysfawr. Mae'r ymarferwyr yn casglu gwybodaeth fanwl am gefndiroedd ymgeiswyr, eu cymhelliant, a'u gallu i ddiwallu anghenion plant y mae angen eu mabwysiadu. Mae'r broses wedi'i hategu gan ffocws clir ar ddiogelu a'r gallu i ddarparu amgylchedd sefydlog a magwrus. Mae'r rhan fwyaf o ddarpar fabwysiadwyr yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda drwy gydol yr asesiad, gyda'r gweithwyr cymdeithasol yn darparu gwybodaeth glir am bob cam ac yn cyfathrebu'n rheolaidd. Nododd un mabwysiadwr, *"Roeddem yn teimlo ein bod*

*yn cael ein cefnogi drwy gydol y broses a chafodd ein cwestiynau bob amser eu hateb."* Er bod y rhan fwyaf o asesiadau yn cael eu cwblhau mewn modd amserol, mae rhai ymgeiswyr yn wynebu achosion o oedi, a hynny fel arfer o ganlyniad i'r amser y mae'n ei gymryd i gael gwiriadau meddygol neu eirdaon. Er ein bod yn cydnabod bod hyn y tu allan i reolaeth FCC i ryw raddau, **dylai'r gwasanaeth barhau i ystyried cyfleoedd i leihau achosion o oedi wrth gwblhau gwiriadau perthnasol gan phartneriaid strategol.**

3.15 Mae'r hyfforddiant i ddarpar fabwysiadwyr yn cael ei ganmol ac mae'n paratoi ymgeiswyr i fod yn rhieni sy'n mabwysiadu. Mae'r sesiynau yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau perthnasol, gan gynnwys ymlyniad, trawma, ac effaith gydol oes mabwysiadu, a chânt eu cyflwyno gan weithwyr proffesiynol profiadol a, lle y bo'n bosibl, gan rieni mabwysiadol eu hunain. **Mae hyn yn arfer da.** Mae darpar fabwysiadwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu o brofiadau bywyd go iawn ac i drafod eu cwestiynau mewn amgylchedd cefnogol. Mae'r hyfforddiant yn hygyrch, a cheir opsiynau cyflwyno hyblyg er mwyn diwallu gwahanol anghenion. Caiff ei gynnig ar adegau allweddol drwy gydol y broses. Mae'r adborth gan gyfranogwyr yn gyson gadarnhaol, gyda llawer yn nodi bod yr hyfforddiant wedi gwella eu hyder a'u dealltwriaeth, gan eu helpu i deimlo'n fwy parod ar gyfer eu taith at fabwysiadu.

3.16 Mae Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn rhan annatod o'r gwasanaeth, gan gefnogi penderfyniadau amserol sy'n canolbwyntio ar y plentyn a hybu sefydlogrwydd cynnar i blant. Mae'r ymarferwyr ac aelodau'r panel wedi cael hyfforddiant ar Sefydlogrwydd Cynnar Cymru, ac mae'r adborth gan yr ymarferwyr a'r mabwysiadwyr yn gadarnhaol, gan dynnu sylw at well prosesau cynllunio a gwell parhad i blant. Y rhanbarth hwn sydd wedi cymeradwyo'r nifer uchaf o fabwysiadwyr Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yng Nghymru o ganlyniad i'w ymrwymiad i sefydlogrwydd cynnar. **Mae hyn yn arfer da.** Mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod angen hyfforddiant a ffocws parhaus er mwyn sicrhau y caiff egwyddorion Sefydlogrwydd Cynnar Cymru eu rhoi ar waith yn gyson, ac mae'n ymrwymedig i sicrhau hynny.

## Gofal a Chymorth

3.17 Mae'r broses o ddod o hyd i deuluoedd yn rhagweithiol ac yn canolbwyntio ar y plentyn, gyda'r ymarferwyr yn cydweithio i nodi teuluoedd addas i blant heb unrhyw oedi diangen. Mae'r broses wedi'i hategu gan ymrwymiad i sefydlogrwydd cynnar a pharhad. Mae prosesau rheolaidd ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng ymarferwyr mabwysiadu, gweithwyr cymdeithasol, ac asiantaethau partner yn sicrhau bod anghenion plant yn parhau'n rhan greiddiol

o benderfyniadau paru. Er bod heriau yn bodoli o hyd wrth ddod o hyd i deuluoedd i blant ag anghenion mwy cymhleth neu blant hŷn, mae'r ymarferwyr yn dangos dyfalbarhad a chreadigrwydd wrth weithredu. Mae adborth gan fabwysiadwyr a gweithwyr proffesiynol yn nodi bod y broses o ddod o hyd i deuluoedd yn cael ei rheoli'n effeithiol, a bod cyfathrebu clir a chymorth ar gael drwy gydol y broses. Caiff y rhan fwyaf o'r plant eu lleoli heb unrhyw oedi diangen, ond nododd ychydig o deuluoedd sy'n mabwysiadu oedi neu fylchau yn y broses gyfathrebu, yn arbennig yn ystod newidiadau neu absenoldebau mewn perthynas â gweithwyr cymdeithasol y plant. **Dylai FCC adolygu ac atgyfnerthu prosesau cyfathrebu pan fydd newidiadau neu absenoldebau mewn perthynas â gweithwyr cymdeithasol y plant, er mwyn lleihau achosion o oedi a sicrhau bod y teuluoedd sy'n mabwysiadu yn cael eu hysbysu'n rheolaidd.**

3.18 Mae Adroddiadau Mabwysiadu Plant a dogfennau Atodiad B (CARB) o safon uchel ar y cyfan, gan roi gwybodaeth gynhwysfawr a sensitif am hanesion ac anghenion y plant. Gellid atgyfnerthu'r adroddiadau a'r dogfennau hyn drwy gynnwys manylion ychwanegol am sut y gallai profiadau cynnar y plentyn ddylanwadu ar ei anghenion emosiynol a'i anghenion datblygiadol dros amser.

3.19 Mae'r trefniadau paru a phontio yn ystyriol o drawma ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio i sicrhau bod anghenion y plant wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau. Mae'r prosesau hyn yn parchu dymuniadau'r rhieni o ran treftadaeth a ffydd, maent yn hyblyg ac yn symud ar gyflymder sy'n addas ar gyfer anghenion y plant. Mae darpar fabwysiadwyr yn cael cyfleoedd i fyfyrio drwy ddiwrnodau myfyrio/gorffwys, **mae hyn yn arfer da**. Mae gofalwyr maeth yn chwarae rôl werthfawr wrth helpu i symud plant i'r teuluoedd sy'n eu mabwysiadu. Mae'r defnydd o sesiynau cyflwyno (*bump-in sessions*) yn helpu i sicrhau cyfnodau pontio didrafferth, gan helpu plant a mabwysiadwyr i feithrin cydberthnasau yn raddol a hybu ymlyniadau cadarnhaol.

3.20 Mae'r ymarferwyr yn cynnwys gwaith taith bywyd wrth gynllunio ar gyfer plant. Maent yn casglu ac yn rhannu gwybodaeth i helpu plant a theuluoedd i ddeall eu cefndiroedd, gan gynnwys profiadau gyda theuluoedd biolegol a bywyd cyn mabwysiadu. Mae gofalwyr maeth a rhieni biolegol yn gwneud cyfraniadau ystyrlon at y broses hon, ac mae gweithwyr stori bywyd arbenigol yn rhoi cymorth ychwanegol er mwyn gwella ansawdd a chysondeb y deunyddiau sy'n cael eu llunio, **mae hyn yn arfer da**.

3.21 Mae'r gwaith taith bywyd yn destun proses sicrhau ansawdd gadarn, gan sicrhau ei fod yn cyrraedd y safonau disgwyliedig. Mae'r deunyddiau taith bywyd drafft yn cael eu rhoi fel mater o drefn i'r panel paru ac mae pob llyfr taith bywyd yn cael ei gwblhau o fewn y terfynau amser gofynnol. Mae

gweithdai ac adnoddau buddiol ar gael i fabwysiadwyr i wella eu dealltwriaeth o gefndiroedd y plant. Fodd bynnag, ceir oedi wrth gwblhau llythyrau yn ddiweddarach mewn bywyd ledled y rhanbarth. **Dylai'r gwasanaeth ddatblygu cynlluniau i ymdrin â hyn er mwyn sicrhau bod plant yn cael cymorth amserol i ddiwallu eu hanghenion o ran eu hunaniaeth.**

3.22 Caiff cynlluniau cymorth mabwysiadu eu datblygu ar y cyd â mabwysiadwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol, wedi'u teilwra at anghenion ac amgylchiadau unigol pob teulu. Mae'r cynlluniau fel arfer yn cynnwys cymorth emosiynol, ymarferol a therapiwtig, yn ogystal â threfniadau ar gyfer cyswllt ag aelodau o'r teulu biolegol lle y bo'n briodol. Mae'r gwasanaeth yn cynnal ffocws cryf ar gefnogi hunaniaeth a llesiant y plant, gan gynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod cynlluniau yn parhau i ymateb i anghenion newidiol. Mae'r rhan fwyaf o'r mabwysiadwyr a ymatebodd i'r arolygon yn nodi bod y cynlluniau cymorth yn ddefnyddiol ac yn ystyried ffactorau perthnasol. Mae rhai o'r ymatebwyr yn nodi nad oes gwaith dilynol bob amser yn cael ei gynnal mewn perthynas â gwaith stori bywyd a threfniadau cyswllt, a bod anghysondeb o ran dulliau gweithredu. **Dylai'r gwasanaeth sicrhau y caiff llythyrau yn ddiweddarach mewn bywyd eu darparu o fewn y terfynau amser ac y caiff trefniadau cyswllt eu hadolygu fel y bo angen.**

3.23 Mae FCC yn cynnig amrywiaeth eang o Wasanaethau Cymorth Mabwysiadu gan gynnwys cymorth ar ôl mabwysiadu sy'n cael ei werthfawrogi gan deuluoedd; ond gall y gwasanaeth amrywio gan ddibynnu pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn. Mae heriau parhaus o hyd o ran amseroedd aros ar gyfer cymorth therapiwtig arbenigol, sy'n aml yn gysylltiedig â phrosesau cyllido allanol. Mae ymarferwyr FCC yn rhagweithiol ac yn ddiwyd wrth gefnogi teuluoedd sy'n aros am wasanaethau therapiwtig arbenigol. Mae llawer o fabwysiadwyr yn datgan eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth ond hefyd yn nodi rhwystredigaeth ag achosion o oedi a'r angen am ymyriadau mwy amserol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio i ymdrin â'r materion hyn ac i wella gallu pob teulu i gael gafael ar gymorth, gan ymgysylltu â phartneriaid a gwasanaethau help cynnar. **Rhaid i'r gwasanaeth ddarparu gwasanaeth tebyg ledled y rhanbarth a dylai ddod ag asiantaethau partner ynghyd i sicrhau bod cymorth cyffredinol a chymorth arbenigol ar gael i deuluoedd ar ôl iddynt fabwysiadu.**

3.24 Caiff gwasanaeth cwnsela ei gynnig fel mater o drefn i rieni biolegol, ac mae'r ymarferwyr yn gwneud ymdrechion parhaus i ymgysylltu â'r rhieni ar amrywiol adegau yn ystod y broses fabwysiadu. Lle bo rhieni yn wynebu rhwystrau ychwanegol, fel sgiliau llythrennedd cyfyngedig neu anghenion ieithyddol, caiff cyfieithwyr a deunyddiau wedi'u cyfieithu eu darparu er mwyn sicrhau hygyrchedd. Mae grŵp cymorth i rieni biolegol a gaiff ei werthfawrogi gan y rhai sy'n rhan ohono am y cymorth emosiynol ac ymarferol a gânt.

3.25 Mae ymarferwyr FCC yn rhoi trefniadau cyswllt (blwch llythyrau) anuniongyrchol ar waith fel mater o drefn, gan sicrhau y gall plant, teuluoedd biolegol a gofalwyr maeth gadw mewn cysylltiad lle bo hynny er lles pennaf y plentyn. Caiff cytundebau blychau llythyrau eu dogfennu'n glir a'u hadolygu, a rhoddir canllawiau ysgrifenedig i fabwysiadwyr a theuluoedd biolegol. Mae FCC yn dangos ymrwymiad i'r agenda cyswllt fodern drwy weithredu pecyn cymorth y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, trefniadau hyblyg sy'n canolbwyntio ar y plentyn, rolau arbenigol, a threfniadau cyson ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd biolegol. Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau o gyswllt uniongyrchol sydd ar waith ar hyn o bryd a mynegodd ymarferwyr bryderon am eu gallu i ymateb i'r twf a ragwelir yn y galw heb gynnydd cyfatebol mewn adnoddau. **Dylai'r gwasanaeth adolygu ei gapasiti a'r adnoddau a ddyrennir er mwyn sicrhau y gall ymarferwyr ymateb i'r galw cynyddol am drefniadau cyswllt uniongyrchol, gan weithredu er lles pennaf plant.**

3.26 Mae gwasanaethau cyfryngol ar gael i helpu oedolion a gafodd eu mabwysiadu a pherthnasau biolegol sydd am roi trefniadau cyswllt ar waith neu sydd am gael gwybodaeth am hanes eu teulu. Mae'r ymarferwyr yn rhoi esboniadau clir, cymorth emosiynol, a chymorth ymarferol, gan gynnwys gwasanaeth cwnsela a help i gael gafael ar gofnodion mabwysiadu. Ar ôl dyrannu gwaith cyfryngol, ymdrinnir â'r gwaith hwnnw mewn ffordd sensitif ac amserol a rhoddir cyfle i bobl ddychwelyd os bydd eu hamgylchiadau yn newid. Fodd bynnag, nodir achosion o oedi wrth gael gafael ar gofnodion mewn rhai achosion, yn aml oherwydd anawsterau wrth ddod o hyd i ffeiliau hanesyddol neu ddogfennau llys. Mae rhai pobl yn nodi rhwystredigaeth nad ydynt yn cael diweddariadau yn ystod cyfnodau o oedi. **Dylai FCC fwrw ati â chynlluniau i wella'r prosesau ar gyfer cyfathrebu â phobl sy'n aros am gymorth cyfryngol.**

3.27 Mae trefniadau'r panel yn gadarn, yn strwythuredig ac yn cael eu cefnogi'n effeithiol gan Gynghorwyr. Mae'r aelodaeth yn cynnwys pobl ag amrywiaeth o wybodaeth, gan gynnwys unigolion â phrofiad bywyd o'r broses fabwysiadu. Mae cynghorwyr meddygol a chyfreithiol ar gael i'r panel. Mae pecynnau'r panel yn gynhwysfawr, ac mae'r aelodau wedi'u paratoi'n dda. Mae'r aelodau yn gofyn cwestiynau priodol sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn gwneud argymhellion clir sy'n cynnwys rhesymeg. Mae cofnodion y panel o safon dda. Mae aelodau'r panel wedi nodi bod angen amrywio'r aelodaeth er mwyn adlewyrchu'r gymuned a gaiff ei gwasanaethu'n well, ac mae ymgyrch recriwtio yn mynd rhagddi. **Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod cyfarfodydd busnes rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn i aelodau'r panel allu dysgu a chael adborth parhaus. Dylai FCC barhau â'i hymdrechion i amrywio aelodaeth y panel er mwyn adlewyrchu'r boblogaeth leol.**

3.28 Mae'r broses Penderfynwyr Asiantaethau mewn perthynas â phenderfyniadau lles pennaf yn un o gryfderau'r gwasanaeth. Caiff penderfyniadau eu gwneud mewn modd amserol gan helpu i roi cynlluniau sefydlogrwydd plant ar waith yn gyflym. Mae **arfer da** yn amlwg pan fydd y Penderfynwr yn adolygu'r holl ddogfennaeth berthnasol, yn cyfarfod â gweithwyr proffesiynol i drafod yr achos, ac yn rhoi rhesymeg fanwl dros ei benderfyniadau. Mae proses y Penderfynwr ar gyfer gwneud penderfyniadau lles pennaf wedi'i dogfennu'n dda, gydag enghreifftiau o gofnodion rhagorol sy'n amlinellu'r rhesymeg sy'n sail i bob penderfyniad yn glir. Fodd bynnag, lle caiff penderfyniadau'r Penderfynwr eu gwneud gan ddilyn argymhellion y panel mabwysiadu, nid yw'r rhesymeg a gofnodir bob amser yn ddigon manwl. Mewn rhai achosion, mae'r cofnodion yn cofnodi cytundeb ag argymhelliad y panel heb ddangos tystiolaeth glir o waith dadansoddi neu benderfyniadau annibynnol gan y Penderfynwr. Er mwyn gwella tryloywder ac atebolrwydd, **dylai Penderfynwyr Asiantaethau sicrhau y caiff eu penderfyniadau yn dilyn argymhellion y panel yn cael eu cefnogi'n gyson gan ddadansoddiad clir a rhesymeg a gaiff ei chofnodi yn y cofnodion, pan fyddant yn rhoi eu cymeradwyaeth neu fel arall.**

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

3.29 Mae FCC yn dangos strwythur llywodraethu clir, gyda threfniadau penodol ar gyfer y grŵp gweithredol, y bwrdd rheoli, a'r cyd-bwyllgor. Mae'r grŵp gweithredol yn goruchwylio'r gwasanaeth a ddarperir o ddydd i ddydd, yn adolygu data perfformiad ac yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar waith yn gyson ledled y rhanbarth. Mae'r bwrdd rheoli yn goruchwylio o safbwynt strategol, gan ddod ag uwch-arweinwyr o bob awdurdod lleol partner ynghyd i bennu cyfeiriad, dyrannu adnoddau a monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau busnes. Mae'r bwrdd hwn yn goruchwylio prosesau cydweithio, cyllidebau a threfniadau diogelu yn effeithiol, ac yn creu cofnodion gweithredu sy'n helpu i roi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith. Mae'r cyd-bwyllgor yn gweithredu fel y corff partneriaeth ffurfiol, gan sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol a hwyluso'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd ar faterion sy'n effeithio ar y gydweithredfa. Mae'r cyd-bwyllgor yn unigryw yng Nghymru. Cafodd ei sefydlu'n unol â chyfarwyddydau statudol, ac mae cyfranogiad gweithredol yr aelodau etholedig o fudd iddo, y mae eu cymorth yn atgyfnerthu'r prosesau llywodraethu ac yn sicrhau bod penderfyniadau strategol yn adlewyrchu anghenion y rhanbarth. **Mae hyn yn arfer da.**

3.30 Mae'r cytundeb partneriaeth yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan uwch-arweinwyr ac mae'n nodi trefniadau llywodraethu manwl. Mae cylch gorchwyl clir yn sail i

bob grŵp llywodraethu, gan gefnogi tryloywder ac atebolrwydd. Mae'r ymarferwyr a'r rheolwyr yn nodi bod rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, ac mae cyfarfodydd rheolaidd yn hybu dealltwriaeth a rennir o flaenoriaethau a heriau. Mae'r trefniadau llywodraethu yn cefnogi trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, gan alluogi FCC i ddarparu gwasanaethau mabwysiadu cyson o ansawdd uchel ledled y rhanbarth. **Mae hyn yn arfer da.**

3.31 Mae'r arweinwyr yn dangos gweledigaeth ac uchelgais clir ar gyfer y gwasanaeth, ac mae'r ymarferwyr a'r rhan fwyaf o'r partneriaid yn eu deall yn dda. Mae'r Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol yn cynnal partneriaeth gref â'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, gan gymryd rhan weithredol mewn fforymau cenedlaethol a mabwysiadu polisïau, gweithdrefnau a safonau ansawdd y Gwasanaeth; mae'r prosesau cydweithio agos hyn yn galluogi'r Gydweithredfa i gyfrannu at waith i ddatblygu mentrau cenedlaethol, rhannu gwersi i'w dysgu, a sicrhau bod plant a theuluoedd ledled y rhanbarth yn cael budd o ymarfer mabwysiadu cyson o ansawdd uchel. **Mae hyn yn arfer da.** Caiff llinellau atebolrwydd eu diffinio'n glir ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

3.32 Mae'r rheolwyr yn weladwy, yn hawdd mynd atynt, ac yn hybu diwylliant o ddysgu a gwella'n barhaus. Mae'r ymarferwyr yn nodi lefelau morâl uchel ac yn gwerthfawrogi'r cymorth a roddir gan y rheolwyr, gan eu disgrifio fel unigolion hygyrch ac ymatebol. Ceir ethos cryf o gynwysoldeb ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gyda'r arweinwyr yn modelu'r ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth a ddisgwylir ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Caiff pob un o'r ymarferwyr eu cyflogi gan FCC sy'n hybu arferion, dulliau gweithredu ac ethos tîm cyson.

3.33 Mae'r gweithlu yn sefydlog ac yn brofiadol ac yn cael ei gefnogi'n dda, a chaiff cyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd i gyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth eu cynnig i'r ymarferwyr. Mae llawer o'r ymarferwyr a ymatebodd i'r arolwg yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant sydd ar gael, ond mae rhai ohonynt yn teimlo bod y cyfleoedd yn gyfyngedig, yn enwedig o ran datblygiad arbenigol neu ddatblygiad sy'n gysylltiedig â rolau penodol. **Dylai'r gwasanaeth adolygu'r cyfleoedd hyfforddi er mwyn sicrhau bod cyfleoedd datblygiad arbenigol a chyfleoedd datblygiad sy'n gysylltiedig â rolau penodol ar gael i bob ymarferydd fel y bo angen**. Mae strategaethau recriwtio a chadw ar waith, ac mae staff asiantaeth yn cael eu defnyddio ar sail gymesur ac am gyfnodau dros dro. Fodd bynnag, **rhaid i FCC, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddilysu'r rheswm pam y daeth cyflogaeth unigolyn i ben pan fydd yr unigolyn hwnnw wedi bod yn gweithio'n flaenorol mewn rôl sy'n ymwneud â phlant neu oedolion agored i niwed.**

3.34 Cynhelir sesiynau goruchwylio rheolaidd sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol a llesiant. Fodd bynnag, mae'r cofnodion goruchwylio yn dangos bod ansawdd y trafodaethau myfyriol a'r gwaith i olrhain camau gweithredu yn amrywio. Er bod rhai cofnodion yn dangos arfer da wrth gefnogi llesiant staff a rheoli achosion, mae eraill yn canolbwyntio mwy ar dasgau ac nid ydynt yn cynnwys tystiolaeth o sesiynau goruchwylio myfyriol. Ceir anghysondeb hefyd wrth storio ffeiliau goruchwylio. **Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod sesiynau goruchwylio yn modelu ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn gyson. Rhaid i'r cofnodion ddangos tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â chamau gweithredu, cymorth i sicrhau llesiant y staff a threfniadau cofnodi cyson.**

3.35 Mae pwysau parhaus ar adnoddau, gan gynnwys cyfyngiadau TG a chyfyngiadau o ran capasiti, yn effeithio ar y gallu i ymateb i'r galw cynyddol, yn enwedig o ran cymorth ar ôl mabwysiadu. Disgwylir y bydd y bwriad i roi System Gyfrifiadurol Integredig newydd (Mosaic) ar waith yn cefnogi gwelliannau yn y meysydd hyn, er nad yw'r amserlenni gweithredu yn glir o hyd. Heb ddefnyddio Mosaic, mae'r gwasanaeth yn dibynnu ar broses casglu data â llaw i lywio datblygiadau i'r gwasanaeth, sy'n cymryd amser ac yn llafurus. **Dylai FCC ddatblygu cynlluniau i roi system rheoli achosion addas ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu ar sail data o hyd ac er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar yr ymarferwyr a'r arweinwyr.**

3.36 Mae strategaeth marchnata a recriwtio FCC yn dangos ymrwymiad clir, arweinyddiaeth ymroddedig, a dulliau gweithredu rhagweithiol ar sail data. Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi mewn swyddog Recriwtio a Marchnata â phrofiad addas i arwain ymgyrchoedd. Ceir cysondeb cryf â blaenoriaethau cenedlaethol, ffocws ar amrywiaeth a chynhwysiant, ac ymdrechion parhaus i ymdrin â heriau recriwtio a chynnal proffil uchel o fewn awdurdodau lleol. Er bod prosesau recriwtio a marchnata'r gwasanaeth yn rhagweithiol ac yn cael eu cydgysylltu'n dda, mae prinder cenedlaethol o fabwysiadwyr yn golygu bod plant, gan gynnwys babanod, yn aros o hyd i gael eu paru â theuluoedd addas. **Dylai FCC barhau i atgyfnerthu ei strategaeth farchnata, gan sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ddynamig ac yn gynhwysol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol er mwyn helpu i recriwtio digon o fabwysiadwyr.**

3.37 Mae'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn gryfder, ac mae cydberthnasau sefydledig ym maes addysg ac iechyd a gydag asiantaethau gwirfoddol yn helpu i rannu gwybodaeth ac i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd. Disgrifiodd llawer o'r bobl a roddodd adborth drwy arolwg mabwysiadwyr AGC brofiadau cadarnhaol o ran cymorth amlasiantaethol, yn enwedig yn ystod y broses baru a'r broses bontio. Fodd bynnag, nododd rhai

ohonynt fod y trefniadau gweithio traws-asiantaeth rhwng cymorth mabwysiadu, iechyd ac addysg yn anghyson, yn enwedig o ran cymorth ar ôl mabwysiadu. Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr a ymatebodd i'r arolygon yn cytuno bod y broses o gydgysylltu ag asiantaethau partner yn effeithiol, ond tynnodd lleiafrif ohonynt sylw at ymwybyddiaeth gyfyngedig o rôl FCC o fewn rhai o dimau'r awdurdodau lleol a rhwystrau parhaus o ran y system TG wrth rannu gwybodaeth. Mae'r arweinwyr yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â phartneriaid strategol, ond **dylai FCC barhau i wella ymwybyddiaeth partneriaid o'r gwasanaeth a sicrhau y caiff pob asiantaeth ei chynnwys o'r cychwyn cyntaf wrth roi mentrau newydd ar waith.**

3.38 Er bod strwythurau llywodraethu ar waith, mae adborth pobl ac ymarferwyr i arolygon AGC yn nodi bod angen gwella cysylltiadau â gwasanaethau a phartneriaid help cynnar er mwyn ymdrin ag amrywiadau rhanbarthol ac achosion o oedi wrth roi cymorth mabwysiadu, yn enwedig ym maes iechyd ac addysg. Mae cynlluniau ar waith i wneud gwelliannau yn y meysydd hyn. **Dylai FCC fonitro'r gwelliannau hyn er mwyn sicrhau cysondeb, cymorth amserol a threfniadau cydweithio effeithiol ledled y rhanbarth.**

3.39 Mae systemau sicrhau ansawdd a pherfformiad yn helpu'r arweinwyr a'r rheolwyr i gynnal dealltwriaeth gywir o'r graddau mae'r gwasanaeth yn llwyddo i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Ceir tystiolaeth bod y gwasanaeth yn annog gwelliannau parhaus, gan gynnwys camau adfer i ymdrin â diffygion a nodir. Caiff safbwyntiau pobl eu casglu a'u defnyddio'n rheolaidd i lywio datblygiadau i'r gwasanaeth; ond, fel y nodwyd yn gynharach, roedd lleiafrif o'r rheini a ymatebodd i arolwg AGC o'r farn nad oedd eu hadborth wedi ysgogi unrhyw welliannau amlwg. Er bod prosesau sicrhau ansawdd ar waith a'u bod yn bodloni'r gofynion ar gyfer adolygiadau o ansawdd y gwasanaeth (Rheoliad 39), **dylai'r gwasanaeth roi Fframwaith Sicrhau Ansawdd ffurfiol ar waith ar gyfer y paneli. Byddai hyn yn helpu i sicrhau dull mwy cyson o ddysgu gwersi o ymarfer ac yn sicrhau y caiff cyfarfodydd busnes rheolaidd eu cynnal i ystyried datblygiadau fel ymchwil darfol.**

3.40 Mae trefniadau diogel ar waith i gynnal a storio cofnodion. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a rheoli cofnodion yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol, a chaiff cofnodion eu storio'n ddiogel. Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i barchu hawliau gwybodaeth ac amddiffyn preifatrwydd pobl.

## 4. Meysydd i'w Gwella y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt

4.1 **Rhaid** i FCC sicrhau bod y Datganiad o Ddiben yn nodi sut y caiff anghenion iaith ac anghenion cyfathrebu, gan gynnwys darparu gwasanaethau yn Gymraeg, eu diwallu'n ymarferol yn unol â Rheoliad 4, Atodlen 1 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

4.2 **Rhaid** i FCC sicrhau y caiff y Datganiad o Ddiben ei rannu, ei drafod a'i ystyried ym mhob agwedd ar ddarparu'r gwasanaeth, yn unol â Rheoliad 24 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019 a'r Cod Ymarfer ar Wasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol 2019 (Rheoliad 10).

4.3 **Rhaid** i FCC sicrhau ei bod yn cydymffurfio'n gyson â safonau'r Gymraeg yn unol â fframwaith 'Mwy na Geiriau'.

4.4 **Rhaid** i FCC adolygu ei chapasiti a'r adnoddau a ddyrennir er mwyn sicrhau y gall ymarferwyr ymateb i'r galw cynyddol am drefniadau cyswllt uniongyrchol a sicrhau bod gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn cael eu darparu mewn ffordd deg a chyson ledled y rhanbarth.

4.5 **Rhaid** i FCC sefydlu trefniadau monitro addas ar gyfer ymweliadau dirybudd â darpar fabwysiadwyr yn unol â chanllawiau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, Diogelu Plant sydd wedi'u Lleoli gyda Darpar Rieni Mabwysiadol.

4.6 **Rhaid** i FCC, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddilysu'r rheswm pam y daeth cyflogaeth unigolyn i ben pan fydd yr unigolyn hwnnw wedi bod yn gweithio'n flaenorol mewn rôl sy'n ymwneud â phlant neu oedolion agored i niwed yn unol â Rheoliadau 2(1), 22 ac Atodlen 2 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

## 5. Argymhellion

5.1 **Dylai** FCC fwrw ati â chynlluniau i ddarparu dolen glir a hygyrch i'w phroses gwyno ar ei gwefan ac ystyried y ffordd orau o roi gwybod i bobl sut mae'r adborth a'r gwersi i'w dysgu sy'n deillio o ganmoliaeth a chwynion yn arwain at wella'r gwasanaeth.

5.2 **Dylai** FCC fwrw ati â chynlluniau i wella'r prosesau ar gyfer cyfathrebu â theuluoedd biolegol am eu hawliau.

5.3 **Dylai** FCC ddatblygu cynlluniau i atgyfnerthu'r wybodaeth ysgrifenedig am wasanaethau cymorth mabwysiadu.

5.4 **Dylai** FCC adolygu ac atgyfnerthu prosesau cyfathrebu pan fydd newidiadau neu absenoldebau mewn perthynas â gweithwyr cymdeithasol y plant er mwyn lleihau achosion o oedi a sicrhau bod y teuluoedd sy'n mabwysiadu yn cael eu hysbysu'n rheolaidd.

5.5 **Dylai** FCC barhau i wella ymwybyddiaeth partneriaid o'r gwasanaeth a sicrhau y caiff pob asiantaeth ei chynnwys o'r cychwyn cyntaf wrth roi mentrau newydd ar waith.

5.6 **Dylai** FCC sicrhau amrywiaeth o ran aelodau'r panel a sicrhau bod trefniadau'r panel yn cynnwys cyfarfodydd busnes rheolaidd i aelodau'r panel a threfniadau i roi Fframwaith Sicrhau Ansawdd ffurfiol ar waith.

5.7 **Dylai** FCC sicrhau y caiff llythyrau yn ddiweddarach mewn bywyd eu cwblhau mewn ffordd gyson heb achosion o oedi.

5.8 **Dylai** FCC sicrhau y caiff cynlluniau cyswllt eu hadolygu pan fydd angen newidiadau neu mewn ymateb i gais gan un o'r unigolion dan sylw.

5.9 **Dylai** Penderfynwyr Asiantaethau sicrhau y caiff eu penderfyniadau yn dilyn argymhellion y panel eu cofnodi'n gyson gan ddadansoddiad clir a rhesymeg wedi'i chofnodi yn y cofnodion, pan fyddant yn rhoi eu cymeradwyaeth neu fel arall.

5.10 **Dylai** FCC fwrw ati â chynlluniau i wella'r prosesau ar gyfer cyfathrebu ynghylch amseroedd aros a'r prosesau ar gyfer cael gafael ar gymorth cyfryngol.

5.11 **Dylai** FCC barhau i atgyfnerthu ei strategaeth farchnata, gan sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ddynamig ac yn gynhwysol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol er mwyn helpu i recriwtio digon o fabwysiadwyr.

5.12 **Dylai** FCC adolygu cyfleoedd hyfforddi er mwyn sicrhau bod cyfleoedd datblygiad arbenigol a chyfleoedd datblygiad sy'n gysylltiedig â rolau penodol ar gael i bob ymarferydd fel y bo angen.

5.13 **Dylai** FCC sicrhau bod sesiynau goruchwylio yn modelu ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn gyson, gan gymryd camau dilynol clir i olrhain camau gweithredu a chymorth i sicrhau llesiant staff, a dylai atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cofnodi sesiynau goruchwylio er mwyn sicrhau cysondeb.

5.14 **Dylai** FCC ddatblygu cynlluniau i roi system rheoli achosion addas ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu ar sail data o hyd ac er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar yr ymarferwyr a'r arweinwyr.

5.15 **Dylai** FCC barhau i archwilio cyfleoedd i leihau oedi wrth gwblhau gwiriadau perthnasol gan phartneriaid strategol.

## 6. Y camau nesaf

6.1 Mae AGC yn ei gwneud y ofynnol i FCC lunio cynllun gwella a'i rannu ag AGC erbyn 11/05/2026.

6.2 Bydd AGC yn adolygu'r cynllun gwella ac yn ceisio cael sicrwydd pellach o gynnydd. Gwneir hyn drwy gyfarfod â Phennaeth Gwasanaethau Plant y prif awdurdod lleol ynghyd â'r Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol o fewn 18-24 mis i gyhoeddi'r adroddiad.

6.3 Bydd AGC yn ystyried gweithgarwch pellach er mwyn cael sicrwydd o welliant parhaus a bydd yn ystyried gweithgarwch ymgysylltu pwrpasol i gefnogi ei gwaith monitro parhaus.


## 7. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**



**Julie Heal**
Pennaeth Arolygu Gwasanaethau Oedolion a Phlant
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

## Atodiad 1

### Methodoleg

### Hunanwerthuso

- Gofynnwyd i FCC gwblhau Hunanwerthusiad er mwyn myfyrio ar ei pherfformiad ei hun mewn meysydd penodol o'r gwasanaeth.

### Gwaith maes

Gwnaethom ystyried profiadau 20 o bobl drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 16 o gofnodion ac olrhain pedwar.

- Gall olrhain cofnod unigolyn gynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr cymdeithasol mabwysiadu, ei weithiwr cymdeithasol gofal plant, y rheolwr, a lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu â 23 o bobl sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwyr (gan gynnwys rhieni sy'n mabwysiadu, teuluoedd biolegol, gofalwyr maeth ac oedolion sydd wedi cael eu mabwysiadu) drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws.
- Gwnaethom ymgysylltu â 52 o ymarferwyr a rheolwyr drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws. Roedd hyn yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol gofal plant, gweithwyr cymdeithasol mabwysiadu, rheolwyr tîm, rheolwyr tîm cynorthwyol, cynrychiolydd asiantaeth fabwysiadu gwirfoddol, rheolwr mabwysiadu rhanbarthol a phennaeth gwasanaethau plant ar gyfer prif awdurdod lleol y Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol.
- Gwnaethom ymgysylltu â 10 cynrychiolydd o asiantaethau partner drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws.
- Gwnaethom siarad â dau gadeirydd panel a 12 o aelodau panel.
- Gwnaethom arsylwi ar ddau banel.
- Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau goruchwylio'r staff.
- Gwnaethom arsylwi ar Ddiwrnod Hwyl i'r Teulu.
- Gwnaethom gyfarfod â dau unigolyn a oedd yn mynychu'r grŵp cymorth i deuluoedd biolegol a gwnaethom fynychu hwb i deuluoedd i rieni sy'n mabwysiadu a phlant sy'n cael eu mabwysiadu.
- Gwnaethom edrych ar y dogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i ymarferwyr a rheolwyr FCC, sefydliadau partner a phobl. Cawsom ymatebion gan 37 o ymarferwyr/rheolwyr o FCC, 50 gan bobl a 26 gan randdeiliaid perthnasol. Cawsom 14 o ymatebion gan deuluoedd biolegol.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

**Y Gymraeg**

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol. Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn.

## Atodiad 2

**Rhestr Terminoleg**

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol yn cyflawni ei dyletswydd(au) statudol ar hyn o bryd a rhaid iddi weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd y Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol yn cyflawni ei dyletswydd(au) cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Arferion da** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn y Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol. Mae hyn yn golygu ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |

**Atodiad 3**

**Tabl Diffiniadau o Niferoedd**

| **Terminoleg** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Bron pob un | Heb fawr ddim eithriadau |
| Rhan fwyaf | 99% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos at 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Ychydig | Llai nag 20% |
| Ychydig iawn | Llai na 10% |